# P-04-500 Galw am Reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid yng Nghymru

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i reoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid a deddfu bod holl sefydliadau achub anifeiliaid yn bodloni gofynion gorfodol yn unol â'r adroddiad a luniwyd gan Weithgor Sefydliadau Lles Anifeiliaid Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru ym mis Hydref 2012. Mae angen i Lywodraeth Cymru roi deddfwriaeth ar waith yng Nghymru o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid (2006), i ddiogelu anifeiliaid rhag esgeulustod a cham-drin.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae mwy a mwy o anifeiliaid yn dioddef cam-drin, esgeulustod ac yn cael eu bridio mewn sefydliadau heb eu rheoleiddio sy'n hysbysebu ei hunain yn Ganolfannau Achub, ac rydym yn galw ar Gynulliad Cymru i ddeddfu o dan Ddeddf Anifeiliaid 2006 i geisio rhoi'r gorau i hyn.

**Prif ddeisebydd:** Lisa Winnett

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor**: 24 Medi 2013

**Nifer y llofnodion**: 265